

Adnodd yn seiliedig ar bwnc
Dinasyddiaeth Fyd-eang

Gwaelod Cyfnod Allweddol 2



Eco-Schools



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

15 BYWYD AR Y TIR



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth gefndirol

Ystyrir gwenoliaid yn arwydd pwysig o wanwyn yn y DU ond mae'r un peth yn wir yn Ne Affrica, felly os yw'r gwenoliaid yn darfod o'r tir yma, byddwn yn colli hyn, yn yr un modd â phobl De Affrica.

Mae adar yn ymfudo wedi bod yn ddirgelwch ers tro byd. Am amser hir, credid pan oedd rhai rhywogaethau adar yn diflannu yn y gaeaf, eu bod yn gaeafgyssu mewn coed. Dim ond drwy fodrwyo adar y darganfuwyd eu taith hir. Mae'r rhesymau'r tu ôl i'r daith hir yn parhau yn ddirgelwch braidd ond teimlir bod y gwenoliaid yn hedfan tua'r de ar gyfer y llu o bryfetach sydd ar gael. Mae'r daith 6000 milltir wedi mynd yn fwyfwy peryglus serch hynny, gan fod gweithgarwch dynol wedi dechrau chwarae mwy o ran. Bellach mae'n rhaid i'r adar osgoi adeiladau uchel, pobl sy'n dymuno eu dal ar gyfer bwyd, a llai o amgylchedd wrth i dir gael ei ddatblygu, yn ogystal â llwyfannau olew a goleudai, y cânt eu denu at eu goleuadau sy'n peri anafiadau a marwolaeth. Golyga hyn fod niferoedd gwenoliaid yn gostwng. Mae'n bwysig bod plant yn sylweddoli bod hyn yn broblem fyd-eang, mae gan bob cam o'r daith ei broblem ei hun, ac mae gan bob gwlad y teithiant drwyddi beryglon gwahanol. Os collir gwenoliaid o ganlyniad i beryglon mewn un wlad, mae pawb ohonom yn eu colli.



Safbwynt hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn peri problemau mawr i wlenoliaid. Mae'r tywydd yn dod yn llai rhagweladwy gan olygu bod gwenoliaid yn aros yn y DU am gyfnod hwy ar gyfer yr hydref cynhesach cyn cael eu dal allan gan ysbeidiau oer dros y Pyreneau wrth i'r gaeaf beri tywydd rhewllyd a stormydd anrhagweladwy. Mae newid yn yr

hinsawdd a gorburi hefyd yn effeithio ar Anialwch y Sahara gan olygu ei fod yn lledu a bod y daith ar ei draws yn hirach. Gan nad oes bwyd ar gael i'r gwenoliaid wrth iddynt hedfan ar draws y Sahara maent yn llwgu i farwolaeth cyn y gallant ei groesi. Os yw newid yn yr hinsawdd yn parhau ar y

gyfradd hon, gallai fod yn ddinistriol i niferoedd gwenoliaid.


Gêm Ymfudo Gwenoliaid Gwaelod Cyfnod Allweddol 2

Pa mor bell allwch chi hedfan?

Nod y gweithgaredd hwn yw dangos yr anawsterau a wyneba gwenoliaid yn ystod eu taith. Mae nifer o beryglon gwahanol y byddant yn dod ar eu traws wrth iddynt groesi gwledydd a diwylliannau gwahanol. Bydd y plant yn chwarae rolau gwahanol yn y gêm gyda rhai yn chwarae rôl y gwenoliaid sy'n ymfudo ac eraill yn cynrychioli'r peryglon, a fydd yn ceisio eu rhwystro.

Deunyddiau sydd eu hangen

- Lluniau o wledydd
- Cerdyn pellter
- Gorchuddion wyneb gwenoliaid (os dymunir)
- Marcwyr (conau neu gylchau)
- Cerdyn ffeithiau am wenoliaid



Cam 1

Gosodwch y cardiau gwledydd o amgylch eich ardal mewn trefn, gan geisio eu gosod oddi wrth ei gilydd yn unol â'r pellter sydd rhyngddynt yn fras e.e. dylai'r pellter rhwng Caerdydd a'r Pyreneau (643 milltir) fod yn llai na'r pellter rhwng Malaga a Marrakesh (1155 milltir). Gweler y cerdyn pellter am wybodaeth.

Dangoswch y llun o'r wennol ac eglurwch sut mae'r wennol yn byw yn y DU ar gyfer misoedd yr haf ac yn nythu yma cyn ymfudo i Dde Affrica unwaith mae'r tywydd yn oeri. Dyma daith o oddeutu 6000 milltir y maent yn ei chwblhau fel rheol mewn llai na phythefnos. Yn y DU a De Affrica cânt eu hystyried yn arwydd pwysig o wanwyn.

Cam 2

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau.

Grŵp 1 = Gwenoliaid. Eu rôl yw hedfan o'r DU i Dde Affrica yn ddiogel.

Grŵp 2 = Plaladdwyr ar gnydau - mae'r grŵp yma yn smalio bod yn bryfed (sydd wedi bwyta cnydau gyda phlaladdwyr arnynt) os ydynt yn cyffwrdd â gwennol, yna mae'r wennol honno allan o'r gêm.

Grŵp 3 = Tywydd gwael dros y Pyreneau - dylent smalio bod yn wynt drwy chwythu neu'n dymheredd rhewllyd drwy smalio crynu. Os ydynt yn cyffwrdd â gwennol wrth iddi basio, mae'r wennol honno allan o'r gêm.

Grŵp 4 = Goleudai a llwyfannau olew ar hyd arfordir Sbaen a De Affrica - dylent sefyll yn stond ond gallant chwifio eu breichiau i ddal gwennoliaid wrth iddynt fynd heibio.

Grŵp 5 = Anialwch y Sahara - Plant yn sefyll mewn llinell gyda'u breichiau wedi ymestyn ac mae'n rhaid i'r gwennoliaid weu eu ffordd drwodd. Os yw'n cymryd mwy na 10 eiliad i fynd drwodd (gellir newid yr amser hwn i wneud y gêm yn fwy hawdd neu anodd) yna ystyrir eu bod wedi chwythu eu plwc ac allan o'r gêm.

Grŵp 6 = Bodau dynol yn dal y gwennoliaid i'w bwyta yng Nghanolbarth Affrica - sefwch yn yr ochr cyn rhuthro i'r canol a chydio mewn gwennol.

Cam 3

Dywedwch wrth y gwennoliaid fod rhaid iddynt hedfan o amgylch y cae chwarae mewn haid i fynd o'r DU i Dde Affrica gan osgoi peryglon ar y ffordd. Os yw perygl yn effeithio arnynt, maent allan o'r gêm. Ychwanegwch grwpiau/perylon yn raddol fel bod y plant yn deall bod y daith yn mynd yn fwy anodd, gan olygu bod niferoedd gwennoliaid yn gostwng. Dechreuwch gyda phlaladdwyr a thywydd gwael, efallai.



Cam 4



(www.bto.org)

Trafodaeth - Yma ceir rhai cwestiynau y gallech eu holi i'r grŵp i wneud iddynt feddwl am sut y gall gweithredoedd yn y wlad hon effeithio ar wledydd eraill.

- Pam mae adar yn mynd ar deithiau mor beryglus?
- Os caiff gwenoliaid eu gwenwyno gan blaladdwyr tra maent yn y DU, pa effaith y bydd hyn yn ei chael yn Ne Affrica?
- Beth allwn ni ei wneud i helpu i amddiffyn gwenoliaid?

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Maes Dysgu a Phrofiad - Y Dyniaethau

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Maes Dysgu a Phrofiad - Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Camau nesaf a syniadau eraill


- Ymchwilio ymhellach i'r bygythiadau y mae gwenoliaid yn eu hwynebu.
- Dewis aderyn gwahanol arall sy'n ymfudo ac ymchwilio i'w daith.

Gwefannau a allai helpu gyda hyn:

<https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/natures-home-magazine/birds-and-wildlife-articles/migration/>

<https://www.bto.org/understanding-birds/articles/bird-migration-masterclass>

Abuja - Nigeria



Marrakesh - Morocco



Caerdydd - Cymru



Ceret -
Pyreneau Ffrengig



Kinshasa -
trwy'r Goedwig law



Croesi'r Sahara




Yaounde - Cameroon



Malaga - Sbaen



Croesi twyni tywod. Stop nesaf:
Windhoek Namibia





Ymfudo Gwenoliaid

Taith		Pellter	Perygl
Caerdydd - Cymru	Pyrenees (Céret)	680	Plaladdwyr
Pyrenees (Céret)	Spain (Málaga)	551	Tywydd gwael
Sbaen (Malaga)	Morrocco (Marrakesh)	1155	Rigiau olew
Morrocco (Marrakesh)	Timbuktu (Mali)	2531	Sahara Desert
Timbuktu (Mali)	Abuja (Nigeria)	884	
Abuja (Nigeria)	Yaounde (Cameroon)	453	Dal am fwyd
Yaounde (Cameroon)	Kinshasa (Democratic Republic of Congo)	622	
Kinshasa (Democratic Republic of Congo)	Windhoek (Namibia)	1323	Twyni tywod
Windhoek (Namibia)	Cape of Good Hope	818	



